LF1217.5 I5 1994
Pam

# ARWR GLEW ERWAU'R GLO
# (1850 - 1950)



## Darlith Agoriadol yr Athro Hywel Teifi Edwards

*14 Chwefror 1994*

PRIFYSGOL CYMRU, ABERTAWE

ADRAN Y GYMRAEG

SWANSEA UNIVERSITY COLLEGE
LIBRARY

*Classmark :* LF1217.5 IS 1994

*Location :* PAM

*Telepen No. :*

1004234958

# ARWR GLEW ERWAU'R GLO
## (1850-1950)

Hywel Teifi Edwards

PRIFYSGOL CYMRU, ABERTAWE

Argraffiad cyntaf—Chwefror 1994

Ⓗ Hywel Teifi Edwards

ISBN 0 86076 097 9

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr, Prifysgol Cymru, Abertawe, Parc Singleton, Abertawe.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion Cyf.,
Gwasg Gomer, Llandysul, Dyfed.

UNIVERSITY COLLEGE LIBRARY SWANSEA

Cyn dechrau'r ddarlith hon carwn ddweud tri pheth yn syml. Yn gyntaf, fy mod i'n dra ymwybodol o'r fraint o gael tenantu yng Nghadair Adran y Gymraeg yng Ngholeg Prifysgol Abertawe o gofio pwy fu'r tenantiaid o'm blaen. Yn ail, fy mod yn gwerthfawrogi'n fawr ewyllys da a chefnogaeth pawb sy wedi dymuno fy lles ers i mi ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Ac yn drydydd ac yn bennaf, fy mod i'n croesawu'r cyfle hwn i ddiolch yn gynnes i staff yr Adran am eu cyfeillgarwch, eu hymroddiad, a'u hamynedd a hefyd i ddiolch i'n holl fyfyrwyr am roi ystyr i'n bodolaeth trwy ddod atom i'n galluogi i wasanaethu'r Gymraeg a'i diwylliant. Bendith arnynt—ac ar eu plant a phlant eu plant.

* * *

'Rwyf am i chi ystyried, yn gyntaf dim, ddau gartŵn a ymddangosodd yn y *Western Mail,* y naill adeg terfysg Tonypandy ym mis Tachwedd, 1910, a'r llall adeg cynnal Eisteddfod Genedlaethol y Barri yn 1920.




His own reputation.

Mae'r cartŵn cyntaf yn crisialu agwedd gynyddol galed y *Western Mail* at löwr yr 'Undebaeth Newydd' a ddaethai fwyfwy i'r amlwg ym maes glo'r De ar ôl sefydlu'r 'FED' yn 1898. Ni wn am ffyrnicach enghraifft o awydd y wasg Doriaidd i ddelweddu'r glöwr newydd fel gormeswr cibddall heb ganddo ofal am na'i deulu na'i gymdogaeth ei hun, heb sôn am barch at egwyddor a theyrngarwch i'w gyflogwyr. Y mae stamp husteria ar y cartŵn hwn.

Terfysg Tonypandy oedd digwyddiad mwyaf ffrwydrol Streic y Cambrian Combine. Fe roes y cof cymunedol rym chwedlonol iddo bron ar unwaith. Yn Winston Churchill a'r Prif Gwnstabl, Capten Lindsay, cafodd y cymoedd ddau adyn i hogi eu dicterau arnynt am flynyddoedd a byddai'r wasg Doriaidd a Rhyddfrydol, wrth geisio atal twf Sosialaeth, yn gyson barod i atgoffa'u darllenwyr am anfadwaith Tonypandy. Yn 1912 cyhoeddwyd *The Miners' Next Step* a dwysäodd husteria cartŵn 1910 yn sgrech yn erbyn syndicaliaeth a theyrnfradwriaeth, sgrech a oedd i daro nodau uchaf dialedd adeg Streic Fawr 1926. Y mae pwrpas y cartŵn cyntaf yn glir. Fe'i lluniwyd yn feistraidd gan J. M. Stanisforth i greu atgasedd at fath o löwr a oedd i'w weld yn ymgorfforiad o afreswm gwrth-gymdeithasol, onid yn wir o gyntefigrwydd. Dyma weithiwr sy'n ddrylliwr trefn; gweithiwr i'w ofni.

Y mae'r ail gartŵn yn dathlu buddugoliaeth James Evans a oedd yn 1920 yn löwr ym Mhwll 9, Tylorstown. Cardi a adawodd gefn gwlad am 'fywyd gwell' y maes glo oedd James Evans. Ar ôl cyfnod dan ddaear ym Mhen-y-graig aeth i Goleg Bala-Bangor yn 1898 i baratoi ar gyfer y weinidogaeth. Cafodd radd dda ond ni chafodd alwad. Am gyfnod bu'n athro ac yn 'ddyn siwrin' ond pan dorrodd Rhyfel 1914-18 allan ailafaelodd yn y mandrel a bu yn y ffas tan 1928 pan gafodd alwad gan Eglwysi Annibynnol Rhiw, Llansannan, a Nantglyn yn Sir Ddinbych. Yn 1933 derbyniodd alwad gan Eglwysi Saron a Godre'r-rhos yn Y Creunant, Cwm Dulais a dyna lle bu tan ei farw yn 1943. Ei bryddest ef ar y testun, 'Trannoeth y Drin', a aeth â Choron Eisteddfod Genedlaethol 1920 a'r goncwest honno a roes fod i'r cartŵn llongyfarchol a welir yma.

Y mae'n ddiddorol, a dweud y lleiaf, fod y *Western Mail* yn llawenhau yng ngallu'r gŵr â'r mandrel i ddringo'n uwch na'i stad i gipio Coron Prifwyl Cymru. Wedi'r cyfan, buasai wrthi am rai blynyddoedd yn ceisio'i gadw yn ei le fel gweithiwr. Sut mae cyfrif am y cartŵn? Yn syml, yr oedd y *Western Mail* yn dal ar gyfle di-ail i





A GLORIOUS ACHIEVEMENT.

gymeradwyo'r glöwr bucheddol, cynhaliol, adeiladol y dechreuodd y Gymraeg ei fodelu yn union sgil Brad y Llyfrau Gleision a'i dra-dyrchafu o'r 1870au ymlaen, yn bennaf ar sail cymeriad a chyfraniad William Abraham (Mabon), yn weithiwr emblematig. Ynghyd â'r chwarelwr, y bugail a'r Gymraes rinweddol yr oedd y glöwr Cymraeg i grisialu rhagoriaethau'r werin a fyddai'n sail teilyngdod y Gymru adferedig.

Yr oedd y glöwr Mabonaidd, o'i gyferbynnu â glöwr cartŵn 1910, yn weithiwr call, diwylliedig a barchai drefn a chyfaddawd er lles y gymdeithas yn gyffredinol. Yn borthwr ei deulu, yn rhesymol ei ddisgwyliadau, yn ddewr a chrefftus wrth ei waith, yn frwd yn ei gapel a'i gôr—yr oedd hwn yn ŵr i ymddiried ynddo. Gallai'r Gymraeg siarad dros hwn yn rhinwedd ei ddynoliaeth gynnes gan

fynnu tegwch iddo ar sail ei haeddiant yn hytrach na'i hawliau fel gweithiwr diwydiannol a wasanaethai 'King Coal'. Yng nghartŵn 1920 yr oedd y *Western Mail* yn rhoi sêl bendith ar ddelwedd a haeddai'i bendithio gan mor gysurlon ydoedd wyneb yn wyneb â chynddaredd y ddelwedd yng nghartŵn 1910.

Rhwng 1850 ac 1950 bodlonodd y Gymraeg ar greu ystrydeb o arwr diwydiannol sydd yn ei hanfod yn ffigur pathetig oherwydd fod ei apêl wedi'i hanelu at y galon a'r sentimentau gwâr yr oedd gan Oes Victoria gymaint o ffydd yn eu gallu i dirioni a llesoli pan gaent eu cyffroi. Ar sail y ffydd honno caethiwyd y glöwr Cymraeg mewn fformiwla lenyddol a'i cadwodd yn ei le am y rhan orau o ganrif ac a gadwodd ddarllenwyr yr ychydig lenyddiaeth a ysgrifennwyd amdano o hyd braich i realiti ei fywyd. Nid oes gan y Gymraeg fawr ddim i'w gynnig i'r sawl a fynnai fod yng nghwmni glowyr yn y ffas a'u clywed yn arfer iaith pwll wrth drafod eu byd a'u pethau. Rhyngom ni a'r glöwr bron heb ffael y mae seloffen gofal y Gymraeg am ei enw da, am ei ddefnyddioldeb emblematig. Nid oedd neb fyth i amau fod perthynas rhyngddo ag anghenfil y *Western Mail* yn 1910.

Erbyn 1896 gallai'r Parch. G. Griffiths (Penar), un arall a gododd o'r pwll, haeru wrth wobrwyo awdl Carnelian i'r 'Glowr' mewn eisteddfod yn Aberdâr fod y testun 'yn dra hawdd' gan na ofynnai 'am amgyffrediad beiddgar na deall olrheiniog.' I ganu'n llwyddiannus ar destun o'r fath byddai'n ddigon i fardd feddu ar 'wybodaeth ymarferol, gallu desgrifiadol, barn aeddfed a choethedig, a dyfnder ac angerddolder teimlad. Wrth reswm, goraf oll po oraf yr "awen" yn ymdriniad y testyn hwn, fel pob testyn arall.' Pan wobrwyodd y Parch. J. J. Williams gywydd Trefin i'r 'Glowr' yn Eisteddfod Genedlaethol Treorci, 1928, cwynodd am safon y gystadleuaeth gan ddweud: 'Testun hawdd yw'r Glowr, a dichon mai anodd cael cân dda ar destun hawdd. . . gellid meddwl mai'r unig bethau gwerth eu crybwyll ym mywyd glöwr yw damwain a thanchwa.' Prawf o afael farwol y fformiwla a ddarparwyd ar gyfer y glöwr yn Oes Victoria yw geiriau Penar a 'J.J.' Un o ffeithiau tristaf hanes ein llên yn y ganrif hon yw fod beirniad mewn Eisteddfod Genedlaethol yn Nhreorci yn 1928, ddwy flynedd ar ôl Streic Fawr 1926 ac ar adeg pan oedd dirwasgiad yn ysgerbydu bywydau lawer yng nghymoedd y De, wedi gallu datgan fod y glöwr yn destun rhy hawdd i gynnal cystadleuaeth o bwys. Golygai nad oedd glöwr fformiwlaig llên Cymru fawr amgenach na ffigur lego—penteulu piwr, gweithiwr bodlon, crefftus,



dewr a hynaws, capelwr selog ac eisteddfodwr (aelod o gôr fynychaf) cwbwl frwd—o roi'r unedau hyn ynghyd ymffurfiai'r glöwr Cymraeg cymeradwy yn ddi-feth a byddai tanchwa neu gystadleuaeth yn ddigon i brofi ei werth.

Y mae'n ffaith, wrth gwrs, fod glowyr yn bod yng nghymoedd y glo ager a'r glo carreg yr oedd eu ffordd o fyw fel petai'n gwarantu cywirdeb y fformiwla. Gallwn gydnabod yn falch eu rhagoriaethau a'u cyfraniadau nodedig i fywyd eu bröydd a'u gwlad. Ond y mae'n llawn cymaint o ffaith fod miloedd o lowyr, heb brinder Cymry Cymraeg yn eu plith, yr oedd rhigolau'u bywydau'n dra gwahanol ac nid siarad am oferwyr a blagardiaid treisgar yr ydym, er fod rheini i'w cael, yn Gymraeg a Saesneg eu hiaith, ym maes glo'r De ond am lowyr a roesai'u bryd beunyddiol ar bethau y gwelodd y Gymraeg yn dda i'w hosgoi. Gwrandewch ar y Parch. R. Gwynedd Jones yn sôn am y Rhondda y ganed y Parch. H. T. Jacob (Jacob Abergwaun) i'w fwrlwm yn 1864:

> 'Bywyd prysur, hoenus, deufor gyfarfod poblogaeth gymysgliw, tafarn a chapel yn cystadlu, gweddïau a rhegfeydd yn torri ar glustiau ieuainc, paffio a phregethu yn uchel eu bri. Dyma fywyd i ddeffroi dychymyg, awchlymu sylwadaeth, ennyn diddordeb mewn dynion, siglo neu gadarnhau ffydd, bywyd a orfodai'r meddylgar i sefydlogi ei fryd yn gynnar.'

Nid dim ond am Gwm Rhondda y mae'r geiriau yna'n wir ac i mi, y golled fwyaf i'n diwylliant yn y cyfnod modern fu methiant ein llên ddychmygus, yn gerdd a stori a drama, i ddelweddu'r bywyd hwnnw yn ei holl aruthredd mewn modd a fyddai wedi'i gwneud yn ddrych anhepgor i drigolion y cymoedd bermanog. Wrth ryfeddu at gyflead y Dr. John Davies o bwysigrwydd dominyddol y diwydiant glo yn ystod ei anterth i economi Cymru, fe fyddaf hefyd yn meddwl am y gynulleidfa a gollwyd i'r Gymraeg. Ystyriwch ei eiriau:

> 'Erbyn 1880, ac am hanner canrif wedi hynny, gweithiai rhwng chwarter a thraean llafurlu gwrywaidd Cymru yn y diwydiant glo. O ychwanegu'r rheini a ddarparai wasanaethau ar gyfer y glowyr, ynghyd â'r docwyr a'r gwŷr rheilffordd a oedd yn ymwneud â chludo glo, bu cyfnod pan oedd dros hanner y genedl Gymreig yn ddibynnol ar un diwydiant, sefyllfa hynod, os nad unigryw, yn hanes yr Ewrop ddiwydiannol.'

Fe wn yn dda fod clwstwr o ffactorau i'w hystyried cyn mentro traethu ar enciliad y Gymraeg yng nghymoedd y De a byddai gwneud hynny'n

golygu troedio tiroedd demograffeg, cymdeithaseg, economeg, gwleidyddiaeth, crefydd ac addysg o leiaf. Nid awn i'w tramwyo heno. Fy nadl am y tro yw fod y Gymraeg wedi creu ystrydeb o löwr rhinweddol, pathetig ei apêl, i sefyll yn y rheng werinol, amddiffynnol a oedd i helpu adfer enw da Cymru wedi Brad y Llyfrau Gleision. Yr oedd iddo swyddogaeth dra phwysig am ei fod yn cynrychioli'r De diwydiannol, y rhan boblog, gymysgryw, beryglus honno o Gymru a oedd debycaf o ddwyn anfri o'r newydd ar 'Cymru lân, Cymru lonydd.' Gellid cydymddwyn â'i ddaioni statig tra parhâi Mabon mewn bri fel llais glowyr y De ond o'r foment y dechreuodd Mabon golli'i ddylanwad gyda sefydlu'r 'FED' yn 1898, ac y dechreuodd y capel a'i ddiwylliant gilio o flaen Sosialaeth yr I.L.P. a'r Blaid Lafur, yr oedd glöwr cynddelwig ein llenyddiaeth wedi'i dynghedu i droi'n rhith.

Gwnaeth y Parch. Tywi Jones ei orau i'w gadw'n fyw yn *Y Darian* rhwng 1914 ac 1934 ond y mae'n arwyddocaol na chododd cylchrediad yr wythnosolyn fawr uwch na thair mil o gopïau ar ôl 1914, sef y bumed ran o'r cylchrediad, fe ddywedir, a oedd i *Tarian y Gweithiwr*, yr wythnosolyn gwreiddiol, yn yr 1880au. Fel golygydd fe fu Tywi Jones yn driw iawn i'r glöwr Mabonaidd ac yn ddewr ei gondemniad droeon o raib y perchnogion ond yr oedd yn ceisio hysbysebu gwerth math o löwr yr oedd 'Undebaeth Newydd' dechrau'r ganrif hon wedi'i 'gloi mas' am byth. Tra mynnai Tywi Jones degwch yn Gymraeg i'w löwr ef ar sail ei sicrwydd Cristnogol o'i haeddiant, mynnai disodlwyr Mabon yn Saesneg gyfiawnder i'w glöwr hwy ar sail eu dealltwriaeth wleidyddol o'i hawliau. Methodd y Gymraeg â dod i delerau â'r undebwyr a ddaeth i rym ar ôl 1898, ni leisiodd mo'u cynnwrf yn iaith eu profiad ac o ganlyniad ni wnaeth fawr mwy na pharhau i goledd delwedd a oedd wedi ymsoledu cyn belled yn ôl â'r 1870au. Eto i gyd, yr oedd y ddelwedd honno i ymwreiddio'n ddigon dwfn yn edmygedd cynulleidfa eang yng Nghymru i sicrhau poblogrwydd dros nos i'r Awdl Foliant i'r Glöwr a enillodd Gadair Eisteddfod Genedlaethol Caerffili i'r Prifardd Tilsli yn 1950, a gafael yr un ddelwedd a sicrhaodd dderbyniad brwdfrydig i *David*, y portread ffilm o'r cyn-löwr, Amanwy, a ddathlodd ragoriaethau gwerin Cymru ar sgrîn fawr Gŵyl Prydain yn 1951. Roedd i'r awdl fuddugol a'r ffilm fel y'i gilydd nerth atyniad y pathos a gadwai gynifer o solos Oes Victoria mewn bri ar lwyfan eisteddfod a chyngerdd. Tarddai cysur y cyfarwydd ohonynt o ran cynnwys ac idiom.



'Rwyf bellach am ddangos sut yr ymffurfiodd delwedd y glöwr Cymraeg erbyn diwedd yr 1870au a pha mor benderfynol fu ei gwarchodwyr i'w chadw'n deilwng o edmygedd a hoffter a chydymdeimlad. Dechreuwyd ei llunio mewn difrif gan Ieuan Gwynedd, prif amddiffynnwr y Gymru a enllibiwyd gan y Llyfrau Gleision yn 1847. Ar ei wely angau yn 1852 cyfansoddodd 'Glo', cerdd nad yw ond 'pastiche' o gerdd brotest enwog Thomas Hood, 'The Song of the Shirt'. Cynhyrfwyd Hood pan ddarllenodd yn y *Times* ym mis Tachwedd, 1843, am drueni gwniadyddes a chanddi ddau o blant i'w magu. Cawsai ei dwyn gerbron llys barn a'i chosbi am bonio tipyn o eiddo'i chyflogwr. Datgelwyd yn y llys na allai ennill mwy na saith swllt mewn wythnos pe gweithiai bedair awr ar ddeg bob dydd. Yr oedd grym apêl protest Hood at y sentimentau gwâr yn ddiwrthdro. Gwnaed drama ohoni ac fe'i cyfieithwyd i'r Almaeneg a'r Eidaleg, Ffrangeg a Rwsieg a'r Gymraeg. Anelodd Hood at galonnau ei ddarllenwyr. Galwodd mor daer am gydymdeimlad a chyfiawnder yn enw dynoldeb nes i'w gerdd ennill statws 'one of the genuine songs of the people, an inspired cry from Hood's heart made their own by the sweated and exploited who had no voice to protest against monstrous injustice.'

Nid yw 'pastiche' Ieuan Gwynedd i'w chymharu â 'The Song of the Shirt' fel darn o farddoniaeth bolemig, ond ei bwriad sy'n bwysig. Fel gweinidog yr efengyl yng Ngwent gwyddai am slafdod beunyddiol y glowyr; fel amddiffynnwr enw da ei genedl gwyddai am ddirmyg adroddiadau gweision y llywodraeth, megis Seymour Tremenheere a Jelinger C. Symons, at eu ffordd o fyw. Rhoes eiriau i'w löwr i ateb ei gollfarnwyr a'i gyflogwyr fel y'i gilydd. Ni faliai neb ei fod yn 'prysur wywo' wrth ateb y galw di-baid am lo 'Trwy gorff y flwyddyn hir.' Disgwylid iddo wynebu peryglon nwy a thanchwa 'Heb neb yn dangos gofal dwys/Am fywyd glowr du!' Onid oedd yntau'n ddyn i'w brisio?

Glo, glo, glo!
Er pob dychrynllyd ffawd,
Ac er mai cymysgedig yw
Â dynol waed a chnawd
  Glo, glo, glo!
Fel pe na bawn yn frawd;
Ac eto'r Duw a'ch creodd chwi
  Yw Tad y glowr tlawd.

Ymhen canrif byddai Gwenallt yn gweld

> . . . Y gyfundrefn arian yn treiglo yn nhrefn gras
> A'r Undebau yn rhan o deulu Duw.

Nid oedd ond yn grymuso hen syniad. 'Roedd Ieuan Gwynedd ar ei wely angau wedi datgan mai gras Duw ar waith mewn dynion a sicrhâi degwch byd i'r gweithiwr diwydiannol. Trwy'r gras hwnnw y gwelai'r glöwr a'r perchennog eu hunain yn frodyr i'w gilydd a throsedd yn erbyn y Crëwr a gwerthoedd y Crist oedd gormes cyfalafiaeth. I Dduw ac nid i unrhyw Undeb y byddai'n rhaid ateb am drin gweithiwr fel pe na bai'n frawd:

> Glo, glo, glo
> Os felly gloddiaf fi,
> Glo, glo, glo
> Fydd ar eich elw chwi.
> Ni ddaw dialedd gwaed,
> I ddifa dim o'ch hedd,
> Am wneud i mi, wrth dori glo,
> Ar unwaith dori'm bedd.

Dylai'r glöwr gorthrymedig gofio fod Dydd y Farn i ddod a gadael i Dduw ddial ei gam. Yn y byd hwn yr oedd y meistri yn ddiogel o gyrraedd 'dialedd gwaed' ond byddai Duw yn disgwyl amdanynt. Cymaint haws fyddai cydymdeimlo â doluriau glöwr a adawai i Dduw dalu i bawb yn ei bryd yn ôl ei haeddiant.

Fe ategwyd apêl foesol, Gristnogol Ieuan Gwynedd gan ddwy gerdd yn yr un cywair a gyfansoddwyd gan y ddau fardd mwyaf poblogaidd eu cân yn Oes Victoria, sef Ceiriog a Mynyddog. Dau wladwr oeddynt heb ddim profiad uniongyrchol o fywyd glöwr. Canodd Mynyddog am 'Pris y Glo' er mwyn sicrhau'i ddarllenwyr yn deimladwy fod ei ofal am werth bywydau. Disgrifiodd Ceiriog yn 'Y Glowr' y dychrynfeydd tanddaearol a'r dihidrwydd a'i gadawai i'w hwynebu mor ddiymgeledd. Cyfansoddodd ei gerdd yn sgil y danchwa erchyll a laddodd 114 o ddynion a bechgyn yn Hen Bwll y Cymer yn y Rhondda yng Ngorffennaf, 1856. Cafwyd y perchennog a'i swyddogion yn ddieuog o esgeulusdod troseddol ac y mae blas chwerwedd yr ymateb i'r ymchwiliad ar eiriau Ceiriog:



> . . . O! Arglwydd, pa hyd
> Bydd tlodion ein byd
> Fel ychain yn lladdfa eu meistriaid.

Dylai'r ffermwr gofio fod y glöwr yn frawd iddo cyn gofyn crocbris am ei gynnyrch yn y farchnad. Dylai 'mawrion y byd' wrth eistedd 'O amgylch eich tân i fyfyrio' ystyried weithiau 'Mor "ddrud" ydyw'r glo/I'r hwn roddo'i "fywyd" am dano.' Amharodrwydd rhai o'u bath hwy i weld Duw mewn cyd-ddyn oedd y drwg:

> Ond bywyd rhy rad
> Yn ngolwg ein gwlad
> Yw bywyd anfarwol y glowyr:
> Gwyn fyd na bai'r byw
> Yn edrych ar Dduw
> Yn "nynion" 'run fath ag yn natur.

Tristâi Ceiriog wrth feddwl am ddioddefaint y glöwr a'i deulu, ond nid oedd am sôn am undeb na streic fel dulliau ymwared. Dychmygodd ei fod yn clywed llais distaw a phrudd yn esgyn 'O'r ddaear at fyddar ddynoliaeth' gan ymbil am gyfrannu

> . . . "i'n mysg
> Wybodaeth a dysg
> Am natur a Duw yn helaethach."

Fe gâi glöwr Ceiriog ateb i'w angen nid mewn maniffesto ond mewn gweddi:

> I'r byd mae fy nghân,
> Gwyn fyd na b'ai tân
> Yn enyn y geiriau sydd ynddi—
> Ond ofer yw cri,
> O! ddyn, atat ti!
> I'r nefoedd drugarog mae'm "gweddi".

Fe ddadleuwn i fod y llenyddiaeth (barddoniaeth gan mwyaf, wrth gwrs) a gyfansoddwyd yn y Gymraeg am y glöwr i lawr hyd at ganol y ganrif hon yn dwyn stamp ysbryd cerddi Ieuan Gwynedd a Ceiriog. Ysbryd gweddi a'r apêl foesol, cynhesrwydd cydymdeimlad ac

edmygedd sy'n penderfynu teithi'r llenyddiaeth honno lle mae'r glöwr yn hawlio'i le droeon a thro yn ddioddefydd gwrol, yn weithiwr hanfodol ddaionus a chymdeithasgar a ffraeth ar drugaredd trefn fasnachol, farus. Y mae'n rheol ei fod yn cael llawer llai o dda'r byd hwn nag a ddylai gael yn rhinwedd ei ddaioni. Dyna'r darlun enillgar, cyfarwydd na lwyddodd Sosialaeth i'w dywyllu â'r un maniffesto, oherwydd yn ein canrif ni fe ddaeth awduron megis J. J. Williams, Crwys, Wil Ifan, Cennech, D. J. Williams, Islwyn Williams, T. Rowland Hughes, Amanwy a Gwenallt i ddiogelu ei briodoleddau a chyflead Tilsli o'r union briodoleddau hynny, wrth gwrs, a sicrhaodd boblogrwydd ei Awdl Foliant yn 1950. O weld y glöwr yn ffrâm canfyddiad Cristnogol y beirdd a'r llenorion hyn ohono fe'i gwelwn yn goncwerwr, yn 'berson byw,' chwedl Gwenallt, na all goruchwyliaeth y farchnad mo'i ddifa wrth ei ddibrisio am fod ei werth wedi'i warantu gan oruchwyliaeth uwch sy'n abl i'w godi

> . . . o waelod pwll i'r Nef
> Â rhaffau dur ei hen olwynion Ef.

Hawdd iawn fyddai dangos pa mor gyson fu awydd y Gymraeg mewn capel ac eisteddfod, cylchgrawn a newyddiadur i ddiogelu buchedd ac ethos y glöwr da a gariai ar ei gefn y fath lwyth o ddisgwyliadau. Byddai pregethwyr weithiau'n manteisio ar drychinebau tanddaearol i bwysleisio cymaint gwell ei stad na'r colledig oedd y truan a fuasai farw'n gapelwr crediniol. Testun diolch yn wir oedd y pyllau hynny lle cynhelid cyrddau gweddi cyn mynd i'r ffas—ac 'roedd hynny'n arfer mewn rhai ardaloedd glofaol cyn bod sôn am Ddiwygiad 1904-5, fel y prawf, er enghraifft, hanesion am 'Dduwiolion y Dyfnderoedd' yn *Cymru,* O. M. Edwards. Ac mor werthfawr oedd tystiolaeth ambell hen sant o löwr diniwed a fuasai cyn ei dröedigaeth yn oferddyn di-ras, megis Tom Stenner yr oedd ei dduwiolfrydedd yn ddihareb ymhlith glowyr y Cymer yn y Rhondda. 'Roedd hwnnw ar wartha'i bechod bob munud o'i oes os yw ei gyfaill, Tom Davies, i'w goelio. Dyma un o'r perlau a gafodd hwnnw i'w trysori ganddo:

> 'Tom, mi fuas i yn ridlo lluti [lludw] y bore ma, a g'wed y gwir wrthoch chi, mi etho i mewn i'r hen ridyll, ac mi ddisgwylas lan, ac mi wetas: "Arglwydd, ridla fi'n dda."'

Meddyliwch am weithio dan ddaear wrth ymyl Stenner!



Yn y Gymraeg 'roedd rhyw foesolydd o hyd am ridlo'r glöwr druan. Ystyrier rhai enghreifftiau. Mewn erthygl ddienw ar 'Bywyd Cyffredin y Glowr' a ymddangosodd yn *Yr Adolygydd* yn 1851 bwriadai'r awdur 'wrth ddilyn y Glowr drwy holl gysylltiadau ei fywyd gweithiol . . . roddi ergyd marwol ar bob camdrefn, a llygredigaeth, a chanmol pob peth sydd yn dda a rhinweddol.' Fel Ieuan Gwynedd ychydig fisoedd yn ddiweddarach 'roedd am i'r glowyr fel dosbarth 'gael mwy o sylw ac ystyriaeth cymdeithas o'i rhwymau iddynt.' I haeddu sylw o'r fath byddai gofyn iddynt, wrth reswm, roi'r gorau i'w harferion salaf. Fel y dywedwyd yn y *Cronicl* ar derfyn Streic yr Haliers yn 1893:

> 'Y mae'r glowyr fel dosbarth yn awr yn drewi gan gwrw a myglys. Peidiwch a'm camddeall. Y mae genyf gyfeillion personol yn mysg y glowyr, ac nid oes dynion ffyddlonach, cynilach, sobrach, mwy deallgar i'w cael yn Nghymru, ond fel dosbarth mae'r glowyr ar ol yn druenus.'

Yn *Y Dysgedydd,* ddwy flynedd yn ddiweddarach, y glöwr, ym marn y Parch. D. Roberts, D.D., oedd 'y llinyn arian, y cawg aur, yr olwyn, a'r piser sydd yn rhaid gael gerllaw ffynon pob masnach. Pe safai gydag ef, safai y cwbl.' Yn rhinwedd natur ei waith yr oedd yn ddewrach na'r un milwr ac yn gymwynaswr cymdeithasol amhrisiadwy. Oherwydd fod cymaint a chynifer yn dibynnu arno, yr oedd ansawdd ei fuchedd o'r pwys mwyaf:

> 'Nid ydyw anystyriaeth yn gweddu i neb, ond y mae gweled ymddygiad anystyriol mewn Glowr yn un o'r pethau mwyaf anghyfaddas a ellir ei ganfod. Glowr annuwiol ydyw un o'r pethau ffieiddiaf ellir weled, a Glowr duwiol, yn ofni yr Arglwydd, ydyw un o'r golygfeydd prydferthaf dan y nefoedd. Y mae amryw o honynt drwy drugaredd, a bydd eto lawer mwy, prysured y dyddiau.'

Fe ddaliodd y Gymraeg ati i gyfarch y glöwr yn y modd hwn o ddegawd i ddegawd. Daliodd i guro drwm yr apêl foesol a'r siars Cristnogol er ei bod mor glir â'r dydd fod miloedd ar filoedd o lowyr wedi rhoi eu ffydd yn yr efengyl sosialaidd, Saesneg a addawai hawliau iddynt yn y byd hwn heb fynnu eu bod yn cerdded llwybrau cul gweddustra yn ddiwyro. Trwy gydol yr ugain mlynedd y bu'n olygydd *Y Darian* ni pheidiodd y Parch. Tywi Jones â chefnogi math o löwr Cymraeg digyfnewid heb amau, fe ymddengys, fod hwnnw'n

praidd ac yn un gorlan Cynghrair y Glowyr.' Ym marn *Y Brython*, 'Yr oedd yn enghraifft o'r glowr Cymreig ar ei oreu; yn llawn o dân a disgleirdeb y glo, ond heb ddim o'i lwch i faeddu neb.' A thystiodd *Y Goleuad* nad oedd modd claddu dylanwad Cristion o'r fath: 'Bydded i Dduw godi arweinwyr eto cyffelyb i Mabon i arwain gweithwyr glofaol Cymru yw cri llawer.' O'r 1870au ymlaen fe wnâi'r beirdd a'r llenorion eu gorau i helpu sylweddoli gobaith *Y Goleuad* trwy sicrhau mai glöwr Mabonaidd fyddai'r glöwr pur ei waed yn ein llenyddiaeth, un y byddai gafael crefydd arno yn gyson fendithiol.

Ac fel petai rhagluniaeth ei hun wedi paratoi'r llwyfan ar gyfer ei ymddangosiad, gorfodwyd y Saeson i gydnabod ei werth gan ddau ddigwyddiad tra dramatig yn ystod y 70au. Bu'r degawd hwnnw ar ei hyd yn un cyffrous iawn i genedl a grefai am gymeradwyaeth. Yn haf, 1872, pan ddychwelodd o'r Congo ar ôl darganfod David Livingstone, hoeliodd Henry Morton Stanley, 'alias' John Rowlands o Ddinbych, sylw ar Gymru trwy wadu ei ach. Yn haf, 1873, daeth Gladstone i Eisteddfod Genedlaethol yr Wyddgrug i ganmol y Cymry yn '"Great Eisteddfod Speech" y ganrif bresenol' yn ôl John Griffith (Y Gohebydd). Yna, yn Chwefror, 1879, anfarwolodd y '24th Welsh' eu hunain ym mrwydr Rorke's Drift yn erbyn y Zulus gan ennill 11 Croes Victoria, y nifer fwyaf erioed i'w hennill mewn un frwydr. Pelydrai'r haul imperialaidd ar y Cymry. Ond er mor odidog oedd y buddugoliaethau hyn, godidocach oedd y clod a sicrhawyd gan 'Gôr Mawr' Caradog yng nghystadlaethau'r Crystal Palace yn 1872 ac 1873, a chan arwyr Pwll Tynewydd yn y Rhondda yn Ebrill, 1877. Diolch i ffordd o fyw glowyr y De bu'n rhaid i'r wasg Lundeinig, hyd yn oed, glodfori eu rhagoriaethau, ac i bob pwrpas 'roedd yn rhaid delweddu'r glöwr o'r 70au ymlaen fel arwr gwaredigol—capelgar a cherddgar.

Diolch i ddyfodiad y Tonic Sol-ffa, y Gymanfa Ganu a'r Eisteddfod Genedlaethol a roes lwyfan i'r brwdfrydedd cerddorol a ymdaenodd drwy'r wlad yn ystod y 60au, yr oedd Cymru erbyn y 70au yn ymffrostio mai hi oedd 'Gwlad y Gân', ac yn fwy na pharod i'w chân, yn arbennig cân ei chorau, dystio dros eu haeddiant. Ac yng nghymoedd glofaol y De y cododd y corau mawr a'i gwnaeth hi'n bosibl i'r Cymry ymroi i 'ganu'r byd i'w le.' Gweithwyr diwydiannol Merthyr, Dowlais, Aberdâr a Chwm Tawe—y glowyr a'u teuluoedd yn anad neb—oedd aelodau'r corau mawr cyntaf i syfrdanu'r wlad wrth ganu corawdau Bach a Beethoven, Handel a Mendelssohn ag angerdd crefyddol anghyffredin, ac yr oedd ugeiniau ohonynt yn 'Y Côr Mawr' a aeth i'r Crystal Palace yn haf, 1872, i gystadlu am y Cwpan gwerth £1,000 mewn cystadleuaeth 'agored i'r byd.' Ni ddaeth côr arall i'w gwrthwynebu yn 1872 ond yr oedd eu teilyngdod tu hwnt i bob amheuaeth. Yn haf, 1873, daeth Côr Cymdeithas Tonic Sol-ffa Llundain i'w gwrthwynebu dan arweiniad (Syr) Joseph Proudman, a threchwyd y Saeson yn llwyr.

Gorlifodd cwpan llawenydd y Cymry. Yr oedd 'Y Côr Mawr', dan arweiniad gŵr a fuasai am gyfnod yn gweithio fel gof dan ddaear, wedi profi gwerth y genedl yn y Crystal Palace, y deml honno a gawsai'i chodi'n un swydd gan (Syr) Joseph Paxton ar gyfer yr Arddangosfa Fawr a daenodd ogoniant yr Ymerodraeth Brydeinig gerbron y byd yn 1851. Yr oedd rhan y glöwr yn y gân yr honnodd Ieuan Gwyllt a'i gyd-gerddorion iddi wared y famwlad o'i dinodedd yn 1872-3, i'w gwneud hi'n anodd iawn i'w bortreadu ar ôl hynny heb ei gôr yn y cefndir ac aeth yn anos fyth wedi i Gôr Meibion y Rhondda ddychwelyd yn goncwerwyr o Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago yn 1893 a derbyn gwŷs frenhinol i ganu gerbron Victoria yn 1898. I ymgeleddwyr enw da Cymru beth a allai fod yn fwy priodol na bod Mabon, y tenor o arweinydd a allai droi eisteddfod afreolus yn gymanfa ganu ar amrantiad trwy ledio emyn, yn arwain glowyr yr oedd eu delwedd ar ôl 1873 i fynnu eu bod yn gantorion dyrchafol.

Pum mlynedd ar ôl i gân 'Y Côr Mawr' yn y Crystal Palace wefreiddio'r genedl, cyflawnwyd camp arwrol yn nyfnderoedd Pwll Tynewydd yn y Rhondda a hoeliodd sylw Victoria, y Senedd a'r wasg Lundeinig ac a ddaeth â gohebydd y *New York Herald* bob cam i'r Porth i adrodd y stori i'w ddarllenwyr. Yn holl hanes epig maes glo'r De y mae i waredigaeth Pwll Tynewydd le ysblennydd iddi ei hun. Ar 11 Ebrill 1877 torrodd dŵr i mewn i'r pwll o hen waith y Cymer a daliwyd dau grŵp o bump mewn pocedi o aer cywasgedig a'u cadwai rhag boddi. Yn un o'r pocedi daliwyd Thomas Morgan a'i ddau fab, William a Richard, ynghyd ag Edward Williams a'i bartner, William Casia. Gan feddwl ei bod ar ben arnynt aeth Edward Williams i weddi cyn iddynt ymroi i ganu pennill Dafydd Williams Llandeilo Fach—'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau. . .' Fe'u clywyd gan fintai fechan o achubwyr a dorrodd drwy 36 troedfedd o lo i gael atynt erbyn bore trannoeth. Yn ci orawydd i ddianc sugnwyd William Morgan i'r twll ymwared gan ruthr yr aer, a thorrodd ei wddf. Yr oedd yn 28 oed ac yn un o aelodau'r 'Côr Mawr'.

Yn y boced arall daliwyd David Jenkins, Moses Powell, George Jenkins, John Thomas a David Hughes, crwtyn 14 oed. Heb ddim i'w cynnal ond pedwar dwsin o ganhwyllau rhoesant hwythau eu ffydd mewn gweddi ac emyn. Ar bnawn Llun, 16 Ebrill, dechreuodd 16 o gewri'r mandrel, pedwar ym mhob tîm yn gweithio teirawr ar y tro, dorri twnnel drwy 114 troedfedd o lo gan wybod y byddai'u bywydau trwy gydol yr amser ar drugaredd llif, nwy a ffrwydriad. Aeth sôn am 'The Charge of the Rhondda Brigade' trwy Brydain. Ar 19 Ebrill clywsant lais George Jenkins ac ymroesant yn daerach fyth: 'The place was full of steam arising from the heated backs of the gallant workmen . . . the clicks of the picks sounded like hail beating on glass.' Ar 20 Ebrill, er gwaethaf y peryglon enbyd, 'roeddent yn barod i dorri trwodd at y trueiniaid a gwirfoddolodd pump i orffen y dasg. Y tri glöwr oedd Isaac Pride, 'Abby' Dodd a Gwilym Thomas, a mynnodd Pride wynebu'r perygl eithaf ei hunan. Torrodd drwodd a chadwodd ei einioes. Gwaredwyd y pump ac yr oedd enw Pwll Tynewydd i fod yn gyfystyr â rhagoriaeth y glöwr Cymraeg o 1877 ymlaen.

Dyrchafwyd ei glod gan y *Times* a'r *Daily Telegraph*; portreadwyd ei wrhydri gan yr *Illustrated London News* a'r *Graphic*; rhyfeddodd y *New York Herald* ac ymorchestodd y wasg yng Nghymru. Anfonodd Victoria ei ffotograffydd i dynnu lluniau'r achubedig ac agorodd Arglwydd Faer Llundain a'r *Daily Telegraph* gronfeydd i swcro a gwobrwyo'r actorion yn nrama fawr Tynewydd. Dangosodd Victoria ei hedmygedd o'r arwyr trwy benderfynu eu bod i dderbyn Medalau Albert—y tro cyntaf i'r Fedal honno gael ei rhoi am arbed bywyd ar dir—ac ar 4 Awst 1877 gorymdeithiodd 40,000 trwy Bontypridd at y Garreg Siglo ar y comin i weld Arglwydd Faer Llundain yn gwrogaethu i'r gwroniaid ac Arglwydd Aberdâr, yn enw'r Frenhines, yn rhoi ei Fedal Albert i bob un o'r pedwar achubwr ar hugain a oedd i'w derbyn. Ni fu'r fath ddathlu na chynt na chwedyn yn holl hanes y diwydiant glo yng Nghymru.

Byddai cofio glewder 'humble men' Tynewydd, yn ôl y *Daily Telegraph,* yn siŵr o arafu llid collfarnwyr y glowyr yn y dyfodol 'and, so remembering, will confess that diamonds may be rough, and yet be diamonds all the same.' Clodforodd y *Times* 'an intense exercise of self-devotion, patience and deliberate courage—a concentration, as it were, of qualities which could only be acquired by the habitual exercise of these qualities in every day life, and perhaps their cultivation





Y Gwaredigion
O'r chwith i'r dde: David Jenkins, George Jenkins, Moses Powell, John Thomas a'r crwt David Hughes.

through many generations.' Geiriodd y *Daily News* ei glod yn ei ffordd wreiddiol ei hun: 'Happily it has been proved in this case, as in so many before it, that English workmen do not regard their own safety when they are working for the rescue of their fellows.'

Fe ofalai'r wasg Gymraeg, fodd bynnag, na châi neb anghofio mai Cymry oedd glowyr Tynewydd, cedyrn o'r un ach â glewion 'Y Côr Mawr'. Dan y pennawd, 'Dim ond Colliers', edliwiodd *Yr Herald Cymraeg* eu dirmyg o'r Cymry i'r Saeson gan ddal fod y 'brawny giants' a gablwyd adeg Streic 1875 wedi profi eu gwroldeb mewn

modd na allai milwyr yr un wlad ragori arno: 'Nid mewn diystyrwch y defnyddia neb byth mwyach yr hen ymadrodd goganus, "Dim ond Collier!"' Sarhad ar lowyr Tynewydd oedd dweud, fel y gwnaeth un papur Saesneg, mai rhai tebyg iddynt oedd asgwrn cefn y Fyddin Brydeinig: 'Nage ddim. Ysgymyndod ein cenedl, neu ychydig o'n bechgyn goreu wedi digwydd troseddu ar reolau'r capel, yr eglwys, neu'r aelwyd, sydd yn ymrestru i'r fyddin, ond nid dewrion fel glowyr Gwent a Morganwg a chwarelwyr Meirion ac Arfon.' Dyna'n union, hefyd, oedd barn Henry Richard, A.S., pan fu'n annerch cynulleidfa fawr yn y Cyngerdd Dathlu a drefnodd Brinley Richards yn y Crystal Palace ar 6 Mehefin 1877. Gwroldeb i arbed bywyd, nid i'w ddifa, a welwyd yn ei holl ogoniant yn Nhynewydd.

Ond yn anad dim pwysleisiodd y wasg Gymraeg y brawdgarwch Cristnogol a'r ffydd yn Nuw a sicrhaodd waredigaeth Pwll Tynewydd. Duwioldeb a gariodd y dydd—dyna'r newyddion da a gyhoeddwyd o bulpudau yng Nghymru a Lloegr wedi 'atgyfodiad' y pump. Ysgrifennodd David Jenkins a Moses Powell hanes eu gwaredigaeth, *Bywyd o Feirw,* er clod i Dduw a phan adroddwyd hanes 'Ten Days Buried in a Coal-Pit' yn y cylchgrawn teuluol tra derbyniol hwnnw, *The Sunday at Home,* rhoddwyd sylw arbennig i'r canu emynau : 'We have read of "Songs on the sea" and "Songs in the night"; but here were songs in the deep—songs in the prison-house of the dark pit. It must have required some energy of soul to sing under such circumstances.' Ni allasai'r *Sunday at Home* wneud dim a roesai fwy o foddhad i'r Cymry na mawrhau 'energy of soul' glowyr Tynewydd. O bob nodwedd arnynt, dyna'r werthfawrocaf yng ngolwg adferwyr y genedl a rhaid eu bod hwy wedi'u plesio'n fawr pan ddosbarthodd Y Feibl Gymdeithas gopïau o'r Beibl wedi'u llofnodi gan yr Arglwydd Shaftesbury ymhlith y dewrion ar 4 Awst 1877.

Ymgorfforodd Joseph Parry 'emyn y glowyr,' 'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau...' yn yr anthem, 'Molwch yr Arglwydd', a gyfansoddodd i ddiolch i Dduw am y waredigaeth ac yn ei *Atgofion* dywedodd y Parch. H. T. Jacob i'r anthem honno gael ei dyblu hyd at un ar bymtheg o weithiau yng Nghymanfa Ganu Undebol yr Annibynwyr dan arweiniad Tanymarian yng nghapel Carmel, Treherbert ar 1 Mai. Daliai'r gynulleidfa i ganu er fod yr arweinydd wedi suddo i'w gadair yn foddfa o ddagrau a neb llai na Charadog yn cerdded nôl a blaen ar yr oriel fel dyn o'i bwyll! Canwyd yr anthem drachefn yn y Crystal Palace ar 6 Mehefin a sêr 'Gwlad y Gân' ar y



llwyfan. Yn eu plith 'roedd Gwilym Thomas, partner Isaac Pride ac 'Abby' Dodd, fel petai rhagluniaeth eto wedi trefnu y byddai un o achubwyr Tynewydd yn fariton nerthol a wnâi i ddelwedd y glöwr Cymraeg cerddgar lathru ledled Prydain wrth i'r 'Gallant Rescuer' fynd ar daith gyngherdda a barodd am y rhan orau o flwyddyn. Yr oedd Gwilym Thomas i ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth yr unawd i fariton yn yr Eisteddfod Genedlaethol chwech o weithiau, y tro olaf yn Abertawe, 1907. Ef oedd unawdydd Côr Meibion y Rhondda pan ddatganwyd 'Pererinion' Joseph Parry yn Eisteddfod Ffair y Byd, 1893, ac yn y Gymanfa Ganu gyntaf i'w chynnal yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Aberystwyth, 1916, ef a ddewiswyd gan yr Athro David Evans i ganu'r unawd yn anthem John Ambrose Lloyd, 'Teyrnasoedd y Ddaear'. Yr oedd yn 73 oed ac yn dal i fod yn 'Gallant Rescuer.' I ddelweddwyr y glöwr o'r 1870au ymlaen yr oedd Gwilym Thomas megis rhodd oddi uchod y bu'n dda gan Dduw ei datguddio yn nyfnder enbydrwydd pwll glo yn y Rhondda.

Pan ofynnwyd i John Thomas a oedd wedi offrymu gweddi danddaearol atebodd nad oedd modd iddo wneud gan nad oedd yn perthyn i unrhyw enwad. Yr oedd rhai felly yn actorion yn nrama Tynewydd ond nid oedd modd elwa'n genedlaethol arnynt hwy. Ni roddwyd Medal Albert i 'Abby' Dodd, o bawb! Ar 12 Mai 1877 fe'i llosgwyd yn ddifrifol mewn ffrwydriad yn Ynys-hir, mewn pwll a oedd yn eiddo Daniel Thomas a James Thomas—rheolwr Pwll Tynewydd. Aeth Morien i'w weld yn ei boenau yn gorwedd ar lawr ar wely gwellt ac enynnodd ei stori ddicter ei ddarllenwyr. Ond bu'n rhaid i Dodd dalu pris ei siarad plaen am ddiffyg gofal perchnogion y pyllau glo am eu gweithwyr ac ni chafodd ei Fedal. Ymddangosodd James Thomas ddwywaith gerbron llys barn ar gyhuddiad o ddynladdiad, y tro cyntaf yn Abertawe, 6 Awst 1877 a'r eildro yng Nghaerdydd, 9 Ebrill 1878. Fe'i cafwyd yn ddieuog o esgeulustod troseddol ac y mae darllen hanes ei ddau brawf yn rhoi golwg iasol ar y peryglon a wynebai lowyr y dwthwn hwnnw. Unig gosb Thomas fu gorfod ildio'r Fedal Albert a oedd wedi'i chlustnodi ar ei gyfer cyn dwyn cyhuddiad yn ei erbyn.

Yr oedd ymddygiad cymodlon Mabon fel arweinydd glowyr y De ynghyd â buddugoliaethau'r 'Côr Mawr' ac arwriaeth Tynewydd i gadw lle diogel i'r glöwr da yn ein llenyddiaeth am hir amser. Dwysäwyd y wedd bathetig ar ei fywyd gan ddirwasgiad erchyll a ddarostyngodd gymoedd y De cyn diwedd 1877 gan wneud i ambell


fardd ddannod i gyhoedd di-hid mai byr iawn oedd eu cof am ddewrion Tynewydd. Ac yna, ar 13 Medi 1878, lladdwyd 268 gan danchwa ym Mhwll y Prince of Wales yn Abercarn. Er mwyn diffodd y tanau bu'n rhaid boddi'r pwll trwy ddargyfeirio Camlas Mynwy a gadael ugeiniau o gyrff heb eu claddu. Arswydwyd y cyhoedd ac unwaith eto cododd Arglwydd Faer Llundain gronfa i swcro'r gymuned ddrylliedig. Fodd bynnag, yng nghanol y trallod yr oedd i olygydd *Y Tyst* gysur mewn un ffaith:

> 'Mae yn llawen genym ddeall y rhoddir gair da i lawer o'r rhai a gymcrwyd ymaith fel dynion rhinweddol a chrefyddol; a dywedir fod pump o bob chwech o honynt yn arfer cyrchu i ryw le o addoliad. Dywedai un o arolygwyr y gwaith glo, ''Bydd ein capel ni y Sabboth nesaf heb haner yr aelodau ynddo, a'r ysgol heb haner y bechgyn;'' a diau genym mai Sabboth i'w gofio yn Abercarn a'r amgylchoedd fydd y Sabboth diweddaf.'


Nid esgorodd cynyrfiadau'r 70au ar na cherdd na stori i beri credu fod awduron y Gymraeg yn daer dros roi'r cymoedd glofaol ar fap ein llên. Ni lwyddwyd i wneud fawr mwy na newyddiadura'n emosiynol am waredigaeth Tynewydd, er enghraifft, ac y mae methiant beirdd a storïwyr y cyfnod i greu llenyddiaeth barhaol rymus ei delweddau ar gorn y digwyddiad hwnnw yn taro dyn yn galed wrth edrych ar baentiad Nicholas Evans, 'Entombed—Jesus in the Midst'. Dyna'r math o gelfyddyd y galwai arwriaeth Pwll Tynewydd amdani, ond nid oes ar gael yr un paentiad cyfoes i anfarwoli'r hyn a gyflawnodd glowyr y Rhondda yn Ebrill, 1877. Mae'n wir i ysgythrwyr yr *Illustrated London News* a'r *Graphic* adael i ni ddelweddau trawiadol a gallwn ddiolch i gelfyddyd y camera am ffotograffau o'r arwyr a'r gwaredigion. I'r paentwyr, fodd bynnag, fel y prawf paentiadau Lady Butler, Alphonse de Neuville a W. H. Dugan o frwydr Rorke's Drift, yr oedd dewrion maes y gad yn dal yn fwy o ysbrydoliaeth na glewion y pwll glo, waeth beth a ddywedai Henry Richard, A.S., am ragoriaeth dewrder bywydol glowyr Tynewydd.

Egin nofelydd o löwr o Gwm Tawe, gŵr o'r enw Roger Thomas (Adolphus) a fu'n un o weithlu John Palmer Budd yn Ystalyfera ac yn flaenor gyda'r Bedyddwyr yn Soar, yw'r unig awdur, hyd y gwn i, i geisio manteisio ar unwaith ar waredigaeth Tynewydd. Ymddangosodd ei stori gyfres, 'Walter Llwyd, neu Helyntion y Glowr' yn *Tarian y Gweithiwr* o 6 Gorffennaf tan 30 Tachwedd 1877. Y mae'n gyfuniad





Entombed—Jesus in the Midst.



Argraffiadau'r *Illustrated London News* o ddrama pwll Tynewydd.



anhygoel o ramant, melodrama a chwedl foes sy'n cynnwys un disgrifiad ciaidd o realistig o ganlyniadau tanchwa a llif dan ddaear. Holl bwynt y stori yw dangos sut y mae rhinwedd y glöwr ifanc, tlawd yn trechu drygioni rheibus Mr. Llewelyns, perchennog Pwll Abereithyn, y mae ei ferch, Emily, wedi syrthio mewn cariad â Walter Llwyd ar ôl ei glywed yn canu. Y mae Llewelyns, ar ôl methu â lladd Walter, yn gyrru Emily i Rwsia rhag iddi briodi glöwr brwnt a oedd yn fab i arweinydd streic, ond y mae Walter yn mynd ar ei hôl ac yn cael help personol y Czar i'w rhyddhau! Yn y diwedd y mae Llewelyns yn llyncu gwenwyn, y mae Walter ac Emily yn priodi, y mae Joseph, tad Walter, yn cael ei benodi'n arolygwr saith o byllau glo ac y mae Walter yn tyfu'n ail Fabon trwy gael ei ethol yn Aelod Seneddol ymhen wyth mlynedd. Y mae buddugoliaeth y glöwr bucheddol, ymatalgar, y glöwr parod i 'roi lle i bwyll a barn,' yn gyflawn ond o ystyried diawlineb Llewelyns y mae braidd yn anodd derbyn mai bwriad Adolphus oedd uno meistr a gweithiwr 'mewn rhwymyn cariad a thangnefedd.' Rhaid derbyn, mae'n debyg, fod Emily trwy fynnu priodi Walter yn gwneud iawn am ddrygioni ei thad.

Gellid cyfeirio at storïau yn *Seren Cymru* a'r *Gwladgarwr,* er enghraifft, lle gwelir y glöwr daionus, pwyllog yn ymffurfio cyn 1877. Walter Llwyd, sut bynnag, yw'r fersiwn atyniadol cyntaf ohono ac mewn llythyr a ymddangosodd yn *Tarian y Gweithiwr* sicrhawyd Adolphus gan neb llai na Llyfrbryf fod rhai o ddarllenwyr ifanc y Gogledd wedi cael blas arbennig ar ei stori. Wele ffaith i'w thrysori! Cyn bod 'Bob Lewis' Daniel Owen yr oedd 'Walter Llwyd' Adolphus wedi'i genhedlu yn 'y Sowth' ac yr oedd yn greadigaeth boblogaidd. Gwaetha'r modd, ni ddaliodd Adolphus ati i lunio storïau o'r fath ac ar hyn o bryd ni wn beth a ddaeth ohono na phryd y bu farw.

Ta waeth am hynny, y mae'n ffaith na ddiflannodd y glöwr da, gwaredigol o'n llên a gellir dilyn ei drywydd (fesul cerdd a stori a drama) i lawr hyd at Awdl Foliant Tilsli iddo yn 1950. O awdl Carnelian, 'Y Glowr', yn 1896, trwy ddrama Beriah Gwynfe Evans, *Ystori'r Streic* yn 1904 a drama John Davies (Pen Dar), *Pai Johnny Bach* yn 1914, ymlaen trwy ganeuon Crwys, Wil Ifan a Cennech, cywydd buddugol Trefin yn Eisteddfod Genedlaethol Treorci, 1928, a dwy gyfrol boblogaidd iawn J. J. Williams, *Straeon y Gilfach Ddu* (1931) ac *Y Lloer a Cherddi Eraill* (1936) y mae ymdaith y glöwr da, Mabonaidd yn un goncweriol. Yng ngeiriau 'J.J.', 'bachan bidir yw Dai' heb

feth, ymgeleddwr Magdalen a'r amddifad fel y'i gilydd. A'i gapel a'i gwnaeth, nid ei undeb.

Fe ddywedwyd eisoes i'r Gymraeg fethu â rhoi iaith i lowyr yr 'Undebaeth Newydd' wedi cwymp Mabon. Y mae *Straeon y Gilfach Ddu,* er enghraifft, wedi'u gwreiddio ym mlynyddoedd olaf y ganrif ddiwethaf ac yn honni ail-greu, er gwaethaf dirni 1931 yn y cymoedd, rhyw gymdeithas lofaol heulog, ddidyndra cyn i'r estron anghyfiaith ddod i greu helynt. Cyn hynny, yr oedd John Davies (Pen Dar), cyn-löwr ac aelod cynnar o'r Blaid Lafur, wedi ceisio priodi crefydd â sosialaeth ym mherson Dafydd Ifans, y glöwr da, a'i ddefnyddio i ryddhau ei gapel, Ninefeh, o afael y rhagrith a ddyrchafai gyfalafwyr traws i'r Sêt Fawr. Gwaetha'r modd, ni cheisiodd wneud mwy na gwawdluniau o wrthwynebwyr Dafydd Ifans ond y mae'r ffaith ei fod ef yn eu trechu heb adael ei gapel yn dangos fod John Davies, a fu'n gapelwr ffyddlon tan ei farw, yn gobeithio gweld crefydd dan sbardun sosialaeth yn adennill ei pharch ymhlith y glowyr. Mae Dafydd Ifans, heb os, yn fwy credadwy na Gruffydd Elias *Ystori'r Streic* a wnaed yn ffigur anhygoel o Grist-debyg gan Beriah Gwynfe Evans dan ddylanwad Diwygiad 1904-5.

Fel drama y mae *Pai Johnny Bach* yn caglu ei ffordd rhwng melodrama a ffars ac nid achosodd yr ymosodiad ar ragrith y capel yr un brotest. 'Roedd tôn John Davies yn rhy chwareus i wylltio pobol. Arall fu'r stori pan berfformiwyd drama rymus J. O. Francis, *Change,* yng Nghaerdydd ym mis Mai, 1914. Yn 1912 enillasai'r gyntaf o'r gwobrau £100 a gynigiwyd gan yr Arglwydd Howard de Walden er hyrwyddo'r ddrama yng Nghymru ac 'roedd eisoes wedi'i pherfformio yn Llundain ac Efrog Newydd. Creodd gryn argraff ar gynulleidfa'r Ŵyl Ddrama yng Nghaerdydd, hefyd, fel y tystiodd clodydd David Lloyd George a W. Llewelyn Williams. Ond i'r Parch. Tywi Jones, golygydd *Y Darian,* y papur a sefydlwyd yn wreiddiol yn 1875 i wasanaethu glowyr y De ac a wnaed yn seintwar i'r glöwr da, cwbwl annerbyniol oedd portread Francis o John Price, y blaenor o löwr traddodiadol y mae ei frwydr â'i ddau fab hynaf, Lewis yr undebwr digyfaddawd a John Henry, y darpar weinidog sy'n cefnu ar ei alwedigaeth, yn chwalu'r aelwyd ac yn achosi tranc y mab ieuaf, Gwilym. Pan gyhoeddodd Caradoc Evans *My People* yn 1915 mynnodd Tywi Jones fod J. O. Francis mor euog ag yntau o fradychu Cymru ac ni newidiodd ei farn er i D. T. Davies ei darnio. Yr oedd Francis wedi gwadu hawl y glöwr da i chwarae rhan y gwaredwr a'r



cyfannwr, ac wedi gwneud sicrwydd ffydd John Price yn arf llawn mor ddinistriol â sosialaeth ddi-ildio ei fab, Lewis. Ni allai hyd yn oed achub ei deulu gan fod ei feibion yn cael ei grefydd ef mor ormesol ei hawl arnynt â chyfalafiaeth y meistri glo ac y mae Gwilym, sy'n gweld fod yn rhaid wrth gyfaddawd, yn cael ei aberthu ar allor eithafiaeth dau sicrwydd di-gyfri'r-gost.

Wrth ddal i ladd ar *Change* yn 1920 mynnai Tywi Jones fod 'y pethau Seisnig a elwir yn Welsh Drama' yn rhwym o wneud cam â Chymru: 'Pa safbwynt bynnag a gymerir i edrych ar y dramodau hyn, ni allant lai na briwio enaid Cymro a ŵyr beth yw gwir fywyd Cymru.' Yr oedd cysur o hyd yn y ffaith fod y Gymraeg heb fradychu'r glöwr da. Bu'n rhaid aros tan 1929 am *Deufor-Gyfarfod,* cyfieithiad Magdalen Morgan o *Change,* ac ni fu protestio ar ôl ei pherfformio yn Theatr y Grand, Abertawe ar 16 Ebrill 1929. Fodd bynnag, yr oedd drama Gymraeg wreiddiol ar ddod a godai storm a hanner dros dro a'r un hen ddicter a oedd i gyfrif am hynny—dicter yr amddiffynwyr yn erbyn enllib honedig ar werin Cymru, ac yn benodol ar y glöwr Cymraeg.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan, 1932, yr oedd drama hir gan Kitchener Davies dan y teitl, 'Adar y To', wedi'i gwrthod er cystal ydoedd yng ngolwg y beirniaid am ei bod yn anfoesol. Yn 1934, dan y teitl *Cwm Glo,* fe'i gyrrwyd i'r un gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd a'r un fu ei thynged. Cydnabu'r Athro Ernest Hughes, y Parch. R. G. Berry a D. T. Davies ei champ ond gan fod amodau'r gystadleuaeth yn gofyn am ddrama y gellid ei pherfformio yn ystod y Brifwyl, ni allent wobrwyo *Cwm Glo* am ei bod yn rhy gignoeth. Ni fyddai cynulleidfa'r Brifwyl yn barod i'w stumogi ac ymhle y ceid merch yng Nghymru i chwarae rhan Marged, y butain ifanc sy'n gadael y Cwm i ennill bywoliaeth ar strydoedd Caerdydd.

Merch Dai Dafis yw Marged ac y mae ei thad yn bopeth na ddylai'r glöwr Cymraeg fod. Byddai'i weld ar lwyfan yn ormod o sioc. Rhaid cofio fod anwyldeb y glöwr da wedi'i ddiogelu yn ystod y blynyddoedd croch rhwng 1914 ac 1934 gan ddefnydd awduron megis y Parch. T. Mardy Rees, y Parch. W. Glynfab Williams a'r Parch. J. J. Williams o dafodiaith i bwysleisio'i hiwmor a'i ddiniweidrwydd. Yn Abertawe yn 1907 dechreuodd yr Eisteddfod Genedlaethol gynnig gwobr am gerdd dafodiaith ond ni ddaeth neb i ganu dim tebyg i 'The Collier's Wife' gan D. H. Lawrence heb sôn am arfer iaith pwll fel y gwnaeth

Morel a'i gyd-weithwyr yn *Sons and Lovers*. Mae'r hyn a ddigwyddodd i bryddest Dyfnallt Morgan, 'Y Llen', yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl mor ddiweddar ag 1953 yn profi mor gyndyn fu'r Cymry i arddel grym tafodiaith fel cyfrwng llenyddiaeth o bwys. Aeth dros 100,000 o lowyr Cymru i wynebu byddinoedd y Kaiser yn Rhyfel 1914-18 a'u cynrychiolwyr yn llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod oedd *'Ni'n Doi'*, Dai a Shoni, y ddau golier comic sy'n sbaddu Saesneg a thafodieithu eu ffordd Brydeingar trwy'r ffosydd yn nhair nofelig y Parch. W. Glynfab Williams, nes cyrraedd Plas Buckingham i dderbyn bob o V.C. er clod i Gymru. Druan o'r glöwr. Edrycher ar y ddau gasgliad o *Ffraethebion y Glowr Cymreig* a wobrwywyd yn Nhreorci yn 1928 a cheir gweld yr un mor glir mor rhwydd y gwnâi'r Gymraeg 'yokel' mewn iorcs ohono.

Collodd Kitchener Davies gyfle i ddyrchafu'r defnydd o dafodiaith mewn drama realistaidd trwy beri i holl gymeriadau *Cwm Glo,* fel y dywedodd, siarad 'iaith seiat Llwynpïod.' Dyna yw gwendid sylfaenol ei ddrama. Ond nid cyfrwng y dweud yn gymaint â'r hyn a ddywedai a wylltiodd gollfarnwyr y ddrama. Yr oedd mor glir â'r dydd yn 1934 fod *Cwm Glo* yn brotest yn erbyn trefn wleidyddol-economaidd a ganiatâi'r math o ddirwasgiad a osodai drigolion y cymoedd glo dan straen gan beryglu safonau moesol a chymdeithasol. Yng ngeiriau Gwenallt, 'arian papur y gyfnewidfa faith' yw holl gymeriadau *Cwm Glo* ond y mae mwy o faw dibristod y farchnad ar rai ohonynt na'i gilydd.

Yr oedd gwrthsefyll bryntni'r cyfnod yn drech na glöwr fel Dai Dafis sy'n barod i dderbyn fod ei ferch, Marged, yn gwerthu ei hunan dim ond iddo ef gael ennill arian blacmêl ar draul rheolwr y pwll a roesai'r sac iddo. Nid oedd y Gymraeg erioed wedi arddel glöwr fel y Dai hwn, heb sôn am ei wneud yn ganolbwynt drama, ac fe ddaeth i'r amlwg a chreu storm yn yr union Eisteddfod Genedlaethol a welodd weddillion 'Côr Mawr' Caradog yn canu 'O Fryniau Caersalem ceir gweled . . .' gerbron torf gyforiog ei hiraeth a'i hedmygedd. Dic Ifans yw cynrychiolydd oes aur yr 1870au yn *Cwm Glo,* ef yw'r glöwr da sy'n ceisio amddiffyn Dai Dafis a'i deulu a sicrhau dedwyddwch y ddau gariad, Idwal a Bet, ac y mae'n llwyr aneffeithiol. Y mae megis haul cyfiawnder pŵl yn pelydru ar bawb a phopeth i ddim pwrpas. Pan yw Marged yn gadael cartref ar ddiwedd y ddrama i borthi blys stryd fawr Caerdydd ni all Dic Ifans ond dechrau adrodd Gweddi'r Arglwydd. O'i gwmpas mae seithuctod, anobaith a marwolaeth.





Gweddill prin 'Y Côr Mawr' yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd, 1934.



UNIVERSITY COLLEGE LIBRARY SWANSEA



Cwmni Drama Cymraeg Abertawe yn Rhydaman, Chwefror 1935.
Ar law dde Kitchener Davies saif Clydach Thomas ('Dai Dafis').



Daeth dyddiau'r *Darian* i ben yn 1934 ac ni chafwyd ymateb gan y Parch. Tywi Jones i *Cwm Glo*. Tybed a fyddai wedi maddau i Gardi o genedlaetholwr a chapelwr a ddaethai'n athro i'r Rhondda am roi Dai Dafis ar lwyfan? Yn sicr ni allai Amanwy a'i condemniodd yn yr *Amman Valley Chronicle*. Pan glywodd fod Cwmni Drama Cymraeg Abertawe i'w pherfformio yn Rhydaman yn Chwefror, 1935, mynnodd nad oedd *Cwm Glo* 'yn ddrama y gall dyn fynd â'i wraig a'i ferch neu ei fab yno, heb ofni y cyfyd cam flas o'r perfformiad,' a mynnodd yn ogystal nad oedd ei gyd-drefwyr wedi'u haddysgu i fwynhau 'sex play.' Profodd y gynulleidfa fod gan bobol yr Aman ddileit mewn pethau o'r fath.

Gan ddadlau nad oedd wedi gweld colier mor frwnt ei fuchedd â Dai Dafis ym Morgannwg na Mynwy ni allai ond gofyn 'Paham y rhaid i ddramodydd o allu Mr. Kitchener Davies liwio'r graig y nadded ef ohoni â huddugl uffern?' Yr oedd *Cwm Glo,* eto fyth, mor atgas bob dim i'r Cymro gwladgarol â *My People* Caradoc Evans ac ni chollodd Amanwy, fel brawd i James Griffiths, mo'r cyfle i ddannod mai ymgyrchwr dros Blaid Cymru a'i creodd. Pan glywodd fod y ddrama i'w pherfformio yn Llandybïe adeg gwyliau'r Nadolig, 1935, ymlidiodd drachefn a phan glywodd fod nifer o lowyr wedi codi i rwystro'r perfformans yr oedd wrth ei fodd:

> 'Da iawn fechgyn Llandybïe! Hyderwn y gwêl glowyr pob ardal arall lle y chwaraeir y ffieiddbeth eu ffordd yn glir i ddilyn esiampl glowyr Llandybïe. Wele gyfle i lowr i ddangos nad oes arno gywilydd o'r graig y'i nadded ohoni.'

Yn ddiddorol ddigon yr oedd Amanwy yn hael ei glod i nofel Walter Greenwood, *Love on the Dole,* a gyhoeddwyd yn 1933. Er fod Sally Hardcastle yn y nofel honno yn gwerthu ei hunan i'r 'bookie', Sam Grundy, er mwyn cael gwaith i'w thad a'i brawd, barnai Amanwy fod agwedd Greenwood at yr Hardcastles yn arddangos cydymdeimlad â theulu dosbarth-gweithiol hanfodol barchus a oedd wedi'i lethu gan amgylchiadau economaidd creulon. Barnai fod Greenwood yn parchu safonau tra fod Kitchener Davies yn eu darostwng. Nid dyna'r gwir, wrth gwrs, a dangoswyd hynny gan gyd-drefwr Amanwy, Ken Etheridge, mewn ysgrif ergydiol yn yr *Amman Valley Chronicle,* '"Cwm Glo". A Modern Morality', a groesawodd ehofndra Kitchener Davies:

'He has shown in this play an unvarnished picture of a colliery district. He has been frank to the point of brutality, and if we do not like the picture, it is time we looked to the mending of the original.'

Pan ffurfiodd Kitchener Davies Gwmni'r Pandy yn 1935 i berfformio'r ddrama ar hyd y De, tyrrodd y cynulleidfaoedd i brofi eu bod yn barod i wynebu drama gyfoes, heriol am fywyd yn y cymoedd glofaol dirwasgedig ac wrth ddwyn y ddarlith hon i ben ni allaf lai na gresynu na ddaeth eraill o blith awduron y Gymraeg i ddilyn trywydd *Cwm Glo.* Yn wir, collodd Kitchener Davies ei drywydd ei hun ac y mae'r clod haeddiannol a roddwyd dros y blynyddoedd i'w bryddest radio, 'Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu', wedi cuddio'r ffaith y gallai fod wedi gwneud un o'r cyfraniadau pwysicaf oll i lenyddiaeth Gymraeg y ganrif hon petai ond wedi dal at fater *Cwm Glo* a datblygu arddull bwrpasol.

Fel Kate Roberts na lwyddodd i ysgrifennu'r nofel am y Rhondda a oedd ganddi mewn golwg am na allai ddygymod ag enciliad y Gymraeg yno, fe all fod Kitchener Davies, hefyd, wedi'i lethu gan ei amgylchedd. Go brin y byddai collfarn Amanwy wedi rhoi taw arno. Ond tewi a wnaeth am ei 'Gwm Glo' a daeth y glöwr da, pathetig yn ôl i'w hen deyrnas yn storïau tafodieithol Islwyn Williams a nofel T. Rowland Hughes, *William Jones.* Caeodd cariadusrwydd y Gymraeg amdano o'r newydd. Ar drothwy'r 50au wele Awdl Foliant Tilsli, pryddestau radio Crwys, 'Morgannwg. Gwlad y Glo', ac Amanwy, 'Yr Hen Gwm', yn ei gynnwys mor gynnes ag erioed a *David,* y portread ffilm o Amanwy, yn ei osod megis eicon ar sgrîn Gŵyl Prydain yn 1951. Ac fel pe na bai hynny'n ddigon dathlwyd arwriaeth Tynewydd eto'r flwyddyn honno pan ddarlledwyd drama radio Islwyn Williams yng nghyfres 'The Rescuers' gan y B.B.C. yn Llundain—pedair blynedd ar ôl ei darlledu o Gaerdydd pan actiwyd rhan Isaac Pride gan Richard Burton. Wrth fwynhau'r hen ddelwedd gellid anwybyddu'r ffaith mai un gerdd a ysgrifennwyd ar 'Cwm Rhondda' ar gyfer y gystadleuaeth a drefnwyd gan Gyngor y Celfyddydau fel rhan o ddathliadau Gŵyl Prydain, ac yr oedd honno, ym marn unfrydol y beirniaid, yn fethiant diweledigaeth. Gellid anghofio, hefyd, mai awdl Tilsli oedd yr unig un ymhlith y tair awdl ar ddeg i'r 'Glöwr' yng nghystadleuaeth 1950 a haeddai'i chadeirio yn ôl y beirniaid.



Fel un o'r cymeriadau etholedig a fu'n cario teilyngdod gwerin Cymru ar eu cefnau er 1850, fe roes y glöwr da wasanaeth am ganrif i lenyddiaeth ei wlad heb godi uwchlaw statws ystrydeb ynddi. Bellach, bydd yn rhaid i'n hawduron ei ailddarganfod cyn y gallant greu delwedd lenyddol iddo a wnaiff degwch â'i le ym mywyd Cymru trwy gydnabod yn agored, mewn iaith heb ei chloffi gan orofal am foeseg lednais, holl aruthredd epig 'Gwyrthiol hil y graith las.' Mewn hanner dwsin o gerddi yn *Eples,* 'Y Meirwon' yn bennaf yn eu plith, dangosodd Gwenallt y grym sydd yn y Gymraeg ar gyfer cyflawni tasg lenyddol nad oes yr un fwy ysblennydd yn galw am ei chyflawni. Dangosodd Dyfnallt Morgan, yntau, yn 'Y Llen', fod modd i fratiaith, o'i defnyddio'n gelfydd, dapio angerdd trasiedi. Mentraf broffwydo wrth orffen y caiff y glöwr fywyd helaethach yn ein llenyddiaeth pan welir ei fawredd gan awduron na fydd eu hiaith yn gaeth i hen gynodiadau na'u hedmygedd yn rheswm dros iddynt ymgadw rhag dadlennu a dehongli. Pan ddaw'r dadeni nesaf daw'r glöwr i'w wir deyrnas yn ein llên.

LIBRARY
UNIVERSITY OF WALES
SWANSEA

Llun clawr:
(*O'r chwith i'r dde*) Gwilym Thomas, 'Abby' Dodd,
Isaac Pride: arwyr Pwll Tynewydd, Ebrill 1877.